YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1903. [CYF. III. RHIF 9.

NODION Y MIS.

BU farw y Pab Leo XIII ar yr 20fed o Orphenaf. Pan yn siarad *Ex Cathedra*, fel Pab yn Rhufain, ac fel penaeth yr Eglwys Lân Gatholig, credai y Catholiciaid fod ei farn yn anffaeledig am ei fod yn gynrychiolydd Duw ar y ddaear. Ond meidrol yw pob bôd dynol er yn Bab. Er iddo gyrhaedd gwth o oedran—pedwar ugain a phedair ar ddeg o flynyddau—diorseddwyd Leo XIII gan y gelyn diweddaf, angau.

Fel pob Cymro Eisteddfodol, rhaid yw i'r Pab wrth ffug-enw, ac enw y Pab wedi ei dalfyru oedd Vincent Pecci. Yr oedd yn fab i Count Ludovico Pecci, yr hwn ddarfu un adeg wasanaethu fel milwr yn myddin Napoleon. Yr oedd Vincent Pecci yn ysgolhaig gwych, ac yn hoff o ysgrifenu prydyddiaeth yn Lladin. Bu yn Esgob yn Perugia am flynyddau, ac anrhydeddwyd ef trwy ei wneuthur yn *Gardinal* yn 1853, a dewiswyd ef yn Bab, fel olynydd Pius IX, ar yr 20fed o Chwefror, 1878, pan oedd yn driugain a naw mlwydd oed. Tystiolaethir mai efe ydyw 257fed olynydd St. Pedr fel prif esgob yr Eglwys Rufeinig. Gwanaidd oedd o ran iechyd pan ddewiswyd ef i lanw yr orsedd Eglwysig, a chredai llawer na fuasai fyw yn hir. Ond trwy ofal parhaus, ac yn enwedig trwy fyw yn gymedrol a chan fwyta ond ychydig fwyd, goroesodd y mwyafrif o'i gyfoedion, ac mae ei esiampl mewn cymedroldeb yn werth ei hefelychu. Mae mwy yn marw o fwyta ac yfed i ormodedd nag o brinder bwyd.

Darfu i Leo XIII, yn ol yr hanes, fyw bywyd difrycheulyd, a bu yn weithiwr difefl hyd y diwedd. Dywedir y bydd yn adnabyddus

mewn hanes fel Gwladweinydd (*Statesman*) enwog, a'r Pab mwyaf ei allu yn yr oesoedd diweddaf. Yr oedd yn byw mewn cyffyrddiad â'i oes. A gwnaeth ymdrech i roddi cyfeiriad i bwerau Llafur a Sosialaeth sydd yn myned ar gynydd yn mhob gwlad. Ond yr oedd llyffetheiriau cyfundrefn Eglwysig Rhufain wedi ei hasio yn rhy dyn hyd yn nod i Bab anffaeledig i'w tori, a chawn ef tua diwedd ei oes yn gogwyddo yn sicr i gyfeiriad Ceidwadol, ac yn methu canlyn y fyddin sydd yn teithio yn gyflym ar Gyfandiroedd rhyddid Gwleidyddol. Ceisiodd fyw mewn heddwch â holl alluoedd llywodraethol y gwahanol wledydd. Ond methodd ddwyn ei hun i gydnabod Brenin yr Eidal fel gwir lywodraethwr y wlad. Honai y dylai ef lywodraethu fel brenin ar yr Eidal, yn ogystal ag eistedd ar orsedd St. Pedr mewn ystyr ysprydol. Collodd ei ragflaenydd, Pius IX, ei frenhiniaeth dymhorol pan yr enillodd yr Eidal ei rhyddid gwleidyddol, ac nid yw yr Eglwys Rufeinig wedi anghofio'r anffawd eto, er fod yna lawer i Gatholig o'r farn erbyn hyn, mai busnes yr Eglwys yw gofalu am ystad enaid anfarwol dyn, a gadael i'r gwahanol bwerau lywodraethu mewn ystyr dymhorol.

Mewn pethau duwinyddol mae pleidwyr Eglwysi Rhufain yn aros bron yn yr un sefyllfa ag oeddent ar ddechreu y ganrif ddiweddaf. Maent bron yn anwybyddu yr holl ddarganfyddiadau a'r drychfeddyliau newydd am y bydysawd, y Beibl, a chreadigaeth dyn ag mae gwyddor, datblygiad ac athroniaeth wedi ddwyn i fewn i'r byd. Cafodd Mr. St. George Mivart, un o ddysgedigion yr oes ei esgymuno gan yr Eglwys er ys ychydig amser yn ol, am iddo gyhoeddi yr heresi ei bod yn bosibl i ddyn ddatblygu i gyfeiriad daioni hyd yn nod yn uffern. Cydnabydda yr oes hon ryddid y person mewn materion gwleidyddol a duwinyddol. Cyhoedda fawredd cynhenid yr yspryd dynol, a thystiolaetha yn ddifloesgni fod Duw yn tabernaclu yn natur dyn ac yn datguddio Ei hun yn uniongyrchol yn y natur ddynol. Mae Eglwys Rufain yn gwadu hyn yn bendant; ac yn dal fod Duw yn datguddio Ei hun trwy offerynoliaeth yr Eglwys yn unig. Saif yr offeiriad rhwng yr enaid dynol a Duw, a chanddo ef mae allweddau'r nefoedd, a'r hawl i gymodi y dyn pechadurus a'i Grewr. Mae y gobaith am fynediad i mewn i drigfanau y Tad Nefol yn ymddibynu yn uniongyrchol ar yr ufudd-dod roddir i delerau yr Eglwys.

Dewisodd Prif Senedd Eglwys Rhufain—Llys y Cardinaliaid—ar ol cryn helbul, Cardinal Sarto, Patriarch Venice, fel olynydd i Leo XIII, ac mae wedi dewis cael ei adnabod fel Pius X. Er yn anisgwyliadwy, mae dewisiad Cardinal Sarto fel Pab wedi rhoddi boddlonrwydd neillduol i'r Catholiciaid yn gyffredinol, a chredant y bydd 'r Eglwys lwyddo dan ei ofal.

Gofyna ymdrech i symud o awyrgylch ganoloesol Eglwys Rhufain i ystyried drychfeddyliau beirniadol dysgedigion fel Delitzsch a Harnack. Ond gan fod cyfeiriad wedi ei wneud er ys rhai misoedd yn ol at enwau yr enwogion hyn yn "Nodion y Mis," doeth yw galw sylw at y ffaith fod llyfr y Proff. Delitzsch ar "Babel a'r Beibl" wedi ei gyfieithu i'r Saesneg, ac ar werth gan *Williams & Norgate* am goron. Mae llythyr Proff. Harnack mewn atebiad i feirniadaeth Ymherawdwr Germani ar y llyfr ar werth yn Seisnig gan yr un cyhoeddwyr.

Dywed Proff. Harnack fod datguddiad dwyfol yn cael ei wneud trwy bersonau ac nid trwy offerynoliaeth cyfundebau, neu lyfrau, neu bethau. Nid oes dau fath o ddatguddiad. Mae datguddiad bob amser yn fater o brofiad personol. Am berson Crist mae Harnack yn ysgrifenu mewn yspryd hynod ryddfrydig. Y geiriau diweddaf ellir gofnodi ar y cwestiwn dyrys hwn, medd efe, yw geiriau St. Paul, fod "Duw yn Nghrist." Pe buasai holl dduwinyddion y byd yn ymfoddloni ar y gosodiadau hyn o eiddo y Proff. Harnack, ar ddatguddiad a pherson Crist, byddai yn bosibl i Undodiaid a holl sectau y byd crefyddol gydaddoli Duw mewn heddwch a pherffaith gydgordiad. Creda pob Undodwr yn yr oes hon fod "Duw yn Nghrist," fod y dwyfol yn tabernaclu yn y dynol yn ei berson. Ac yn mhellach creda fod y natur ddynol o ddwyfol haniad, ac mai rhan o'r Bywyd anfeidrol yw pob bywyd meidrol, ac o ganlyniad fod Duw yn tabernaclu yn mhob enaid ac yn enwedig yn y dyn da.

Mae cynhwrf newydd wedi ei greu yn y byd llenyddol yn nghylch ymddygiad Carlyle tuag at ei wraig, am y rheswm fod rhai o lythyrau Mrs. Carlyle wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar, a bod rhagdraeth hir ar y pwnc wedi ei ysgrifenu gan y meddyg enwog, Syr James Crichton-Browne. Mae llawer o ddynion mwyaf athrylithgar y byd wedi methu byw yn heddychlawn â'u gwragedd. Ystyrid Carlyle yn ddyn o athrylith, o gyneddfau meddyliol cryf, ac yn ysgrifenwr ardderchog, a chredid ei fod wedi byw mewn yspryd cariadus gyda'i wraig hyd ddydd ei marwolaeth, a bod ei fywyd priodasol yn eithriad yn mywydau dynion o athrylith. Ond pan gyhoeddodd Mr. Froude hanes bywyd Carlyle mewn amryw gyfrolau, cyfododd cythrwfl nid bychan yn y byd llenyddol. Tystiolaethodd Froude, ac efe hefyd yn un o gyfeillion mynwesol Carlyle, nad oedd bywyd priodasol Carlyle wedi bod yn hollol lyfn, a'i fod wedi ymddwyn tuag at ei wraig ar rai prydiau gyda'r fath hunanoldeb, nes peri i'w gydwybod ei ddwysbigo yn erwin ar ol ei marwolaeth am ei ymddygiad angharedig.

Mae yna ddwy blaid yn yr helbul hwn. Tystiolaetha pleidwyr Carlyle ei fod wedi bod yn briod caredig a chariadus ac yn hynod ofalus a thyner o Mrs. Carlyle. Dywedant am Mr. Froude nad oedd bob amser yn alluog i fesur a phwyso digwyddiadau yn iawn, a'i fod yn cael ei arwain o dir y gwirionedd gan ei ddychymyg. Aeth rhai ysgrifenwyr mor bell a thystio fod Froude wedi ysgrifenu anwiredd noeth, am y gwyddai y byddai hyn yn talu'r ffordd pan ddelai ei gyfrolau ar hanes Carlyle i'r farchnad. Dywed Syr James Crichton-Browne, fod Mrs. Carlyle yn dioddef un adeg yn ei bywyd oddiwrth anhwylder gieuol, ac nad oedd yn gyfrifol am yr oll a ysgrifenai ar y pryd, ac fod hyn yn cyfrif am rai gosodiadau yn ei llythyrau nad oeddent yn ffafriol i Carlyle.

Tystia pleidwyr Froude ar y llaw arall fod Mr. Froude wedi ysgrifenu y gwir, a'i fod wedi parotoi ysgrif mewn hunan-amddiffyniad cyn ei farwolaeth, yr hon pan ei cyhoeddir a symuda ymaith bob amheuaeth am eirwiredd Froude. Gellir gweled yn hon fod ei gariad at Carlyle yn fawr, ac mai o serch at y gwirionedd yr ysgrifenodd fel y gwnaeth. Mae y dadleu yn myned yn y blaen yn hwylus yn y cylchgronau, a llithiau meithion yn cael eu hysgrifenu i geisio profi eu bod hwy, ar y ddwy ochr, yn hollol iawn yn eu barn ar y pwnc. Mae yn rhaid i'r darllenydd sydd yn meddwl yn uchel am ysgrifeniadau Carlyle feddianu ei yspryd mewn amynedd, nes bo y storom drosodd, a diolch, nad beth am ffaeleddau Carlyle, ei fod wedi ei alluogi i ysgrifenu gwirioneddau mor ardderchog.

PLEIDWYR CYNYDD MEWN CREFYDD.

DR. JOHN WILLIAM COLENSO, ESGOB NATAL.

[Parhad o'r Rhifyn Diweddaf.]

Gwelsom eisioes fod Colenso o duedd ymofyngar naturiol, ac fod y duedd hon wedi ei chwrteithio yn foreu. Gobeithiwn wneud yn amlwg cyn diwedd yr erthygl hon ei fod yn meddu elfen arall llawn mor angenrheidiol i bleidwyr cynydd yn mhob ffurf—gwroldeb i gyhoeddi'r gwirionedd fel yr ymddangosai iddo ef.

Gofyniadau y Zwlwiaid a'u Heffaith.

Mae plant yn hynod am eu gallu i ddyfeisio gofyniadau dyryslyd a chywrain. Pa dad sydd nad yw wedi cael ei flino ganddynt lawer gwaith? Mae llawer o honynt yn gyfryw na ellir eu hateb. Ac y mae ambell un hefyd yn agorydd llygaid i lawer hynafgwr naill ai i weled camsynied rhyw olygiad o'i eiddo neu i weled rhyw wirionedd mewn goleuni gwahanol. Un o'r digwyddiadau mwyaf swynol a phrydferth yn hanes yr Iesu yw ei ymddyddan a'r doctoriaid yn y deml pan yn ddeuddeg oed. Mor naturiol ydyw! Boddlon ydym i'r beirniaid i nodi llawer o gynwys yr Efengylau fel traddodiadau, ond hoffem gadw gafael ar yr un digwyddiad syml hwn, a meddwl ei fod wedi cymeryd lle yn gywir fel y desgrifir ef. Y mae rywfodd yn dwyn yr Iesu yn agos iawn atom. Mae'r nodwedd hon yn amlwg neillduol mewn dynion cyfyng eu gwybodaeth—yn neillduol felly yn achos cenedloedd anwaraidd y ddaear. Mae hyn hefyd yn naturiol oherwydd nid ydynt hwythau ond plant, gyda chyrph wedi tyfu i fyny, ond a'u meddwl heb ei ddatblygu ond ychydig iawn, os dim. Llawer o bleser ydym wedi fwynhau cyn hyn wrth ddarllen y gofyniadau cywrain a ofynir i genhadon gan y bobl anwaraidd yr ânt atynt i'w hefengyleiddio a'u gwareiddio—gofyniadau ydynt yn fynych yn fwy cydfynedol a rheswm ac a synwyr cyffredin na llawer o'r hyn a ddysgir iddynt yn enw Cristionogaeth. Sylwasom eisioes mai'r gofyniadau aml a roddid iddo gan y bobl dduon a'i cynorthwyai berodd i Colenso i ymgymeryd ag astudio'r Beibl o'r newydd. Nodasom rai o'r gofyniadau roddid iddo. Pwy fedrai yn onest eu hateb yn gadarnhaol? Ac os atebai hwynt yn nacaol, beth fyddai'r canlyniad? Gallai lithro yn esmwyth dros yr anhawsderau, fel mae miloedd wedi gwneud cyn ac wedi hyny. Ond ni wnai hyn ond troi'r anhawsderau o'r neilldu dros amser; a byddent yn sicr o godi eu penau eto bob yn dipyn. Yr oedd hefyd yn hollol anghydnaws a natur Colenso i chwareu a'r gwirionedd. A oedd y Beibl yr hyn yr haerid ei fod, sef, llyfr anffaeledig, wedi ei ddatguddio mewn modd arbenig ac eithriadol i'r dynion y mae eu henwau wrth y gwahanol lyfrau? Ynte llyfr dynol oedd? Os y cyntaf, gofynol oedd i bob athraw crefyddol i fod yn alluog i egluro'r anhawsderau a ymgynygent i ddarllenwyr syml ac anllythyrenog. Os yr olaf, dylid gwneud rhywbeth i dori i lawr yr hen syniad cyfeiliornus a chamarweiniol a ffynai hyd hyny. Dyma'r gorchwyl yr ymgymerodd Colenso ag ef.

Ffrwyth ei Ymchwiliadau.

Ar y Cyfandir yr oedd y beirniaid Beiblaidd wedi bod yn ddyfal wrth y gorchwyl o chwilio i fewn i wir natur gwahanol lyfrau y Beibl er yn gynar yn y ganrif—rai cyn hyny. Yr oedd eu casgliadau yn adnabyddus ddigon i lawer o ysgolheigion Beiblaidd y wlad hon; ond ni roddwyd derbyniad iddynt gan yr un o honynt, o leiaf, os

rhoddid derbyniad iddynt mewn achosion unigol, yn ddirgel y gwneid hyny, ac nid yn gyhoeddus. Efallai hefyd y delai rhyw adsain am yr hyn a wnelid ar y Cyfandir i glustiau'r mwyaf darllengar o'r lleyg yn yr eglwysi; os delai, ni roddid croesaw i'r syniadau newydd, a diau yr ymlawenychent yn y meddwl nad oedd perygl cyhyd ag y gellid cadw'r yspryd newydd tu allan i gyffiniau'r wlad, yr hyn fel y gobeithient a lwyddid i wneud. Ond nid oedd y gobaith hwn i gaei ei sylweddoli. Yr oedd yr yspryd a'r syniadau newydd i weithio eu ffordd i Loegr, a'r cyfrwng oedd un o Esgobion Eglwys Lloegr—Esgob Colenso. Rhwng 1862 ac 1865 efe a gyhoeddodd ffrwyth ei astudiaeth o lyfrau cyntaf y Beibl mewn pump o ranau. Dianghenraid yw rhoi desgrifiad helaeth o'r prif gasgliadau y daeth iddynt. Mae yn anhawdd gwneud hyn mewn ychydig o eiriau. Efallai y rhydd y braslun canlynol rhyw ddrychfeddwl i'r darllenydd o'u natur: llwyr foddlonodd ei hun nad oedd ond ychydig iawn, os dim, o'r pum' llyfr cyntaf o awduriaeth Moses, a'u bod wedi eu hysgrifenu gan amryw awdwyr, ar wahanol amserau, ac o dan amgylchiadau tra gwahanol, ac na ellid gosod ond ychydig, os dim, ymddibyniad ar eu cynwys fel hanes.

Y Canlyniad.

Hawddach dychmygu na desgrifio yr effaith gafodd ymddangosiad y rhan gyntaf o'r gwaith ar y Pum Llyfr ar yr awdurdodau Eglwysig. Yr oedd eisioes yn wrthddrych drwgdybiaeth yn herwydd llyfr arall a gyhoeddwyd ganddo ychydig yn flaenorol (yn 1861)—esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid, yn yr hwn yr amheuai'r athrawiaeth o dragywyddol gosp. Ond pan gyhoeddodd y rhan gyntaf o'r llyfr uchod daeth yn wrthddrych atgasedd ac erledigaeth ei frodyr Esgobol, yn nghyd a bron yr oll o'r offeiriadaeth; ac wrth ddarllen hanes eu hymddygiadau tuag ato, adgofir ni o amserau enbyd y Chwilys Pabaidd; yr unig wahaniaeth yw fod yr ystanc a'r carchar a'r cyfryngau ereill i sicrhau ufudd-dod yn absenol yn achos Colenso. Yn gyntaf, ceisiwyd ganddo i ymddiswyddo yn wirfoddol, yr hyn a wrthododd wneud; yna gwaharddwyd iddo i bregethu yn yr Eglwysi, a gwrthodai'r Esgobion a'r Offeiriaid ei gydnabod yn unrhyw fodd, hyd yn nod ei gyfarch ar yr heol. Y cam nesaf oedd ei ddiswyddo gan Dr. Gray, Esgob Cape Town, a phan y dyfarnodd y Cyfrin-gynghor nad oedd gan Dr. Gray un awdurdod ar Esgob Natal, gwrthododd yr Esgobion dalu iddo ei gyflog. I wneud hyn ymddengys nad oedd ganddynt hawl; ac ar ol iddo gymeryd y mater o flaen un o'r Uchel-Lysoedd, cafodd ddyfarniad yn ei ffafr, a bu raid i'r Esgobion i ymostwng. Yr ymgais olaf o bwys i'w ddistrywio oedd ei esgymuno gan Dr. Gray, yr hyn a wnawd yn 1866. Ond trodd yr ymgais hon allan yn fethiant fel y lleill o'i blaen. Er yr holl ymgeisiadau hyn glynodd Dr. Colenso wrth lwybr dyledswydd yn ffyddlon a gwrol, a pharhaodd yn Esgob Natal hyd ei farwolaeth yn 1883. Nid yw'r uchod ond braslun anmherffaith ac anghyflawn o'r ym-

drafodaeth boenus—un o'r digwyddiadau anymunol sydd yn anharddu tudalenau hanes crefydd yn Mhrydain yn ystod y 19eg ganrif.

Goleuni yn y Tywyllwch.

Pwy ond y rhai ydynt wedi myned trwy gyffelyb brofiad fedrant amgyffred y teimladau anymunol lanwent ei fynwes wrth weled y rhai fuont unwaith yn gyfeillion gwresog bellach yn elynion anghymodlawn, a gwmpasent dir a môr er ei ddwyn i ddinystr? Yr un yw tynged pleidwyr cynydd yn mhob oes, a blin meddwl fod yr Eglwys Gristionogol—bron bob canghen o honi—wedi bod yn graig rhwystr ar ffordd cynydd, tra y dylai fod yn gyfeilles wresog iddo. Felly bu yn achos Colenso, yr Eglwys—yr Eglwys y perthynai efe iddi hefyd, fu ei elyn a'i wrthwynebydd gwaethaf. Ond er mai tywyllwch a'i gwynebai yn mhob man y troai ei wyneb ato yn ei Eglwys ei hun, gydag ychydig eithriadau, eto nid oedd ei fywyd yn hollol amddifad o'r goleuni hwnw sydd wedi bod erioed yn gymhorth i bob un yn yr un cyflwr—y goleuni a ddelai o gariad cyfeillion newydd, o gydnabyddiaeth gan ddynion o safle uchel yn myd gwybodaeth, o barodrwydd lluaws o bobl gyffredin ddeallgar i roddi clust ymwrandawiad i'w genadwri, ac o ffyddlondeb y rhai yr oedd wedi rhoi ei fywyd i'w gwasanaethu yn niffaithdiroedd Deheu Affrig.

Ein Dyled i Colenso.

Dywedodd Deon Stanley unwaith, gyda'r dewrder a'i nodweddai, y trysorid enw Colenso yn mhell ar ol i enwau ei erlidwyr i syrthio i ebargofiant. Beth sydd yn ei wneud yn deilwng o goffadwriaeth gan yr oesau a ddel? Mae ei lyfrau erbyn hyn wedi eu halltudio i gilfachau tywyll ein llyfrgelloedd, ac ni ddarllenir mo honynt ond gan y cywrain a'r hanesydd; mae llawer o'i gasgladau parthed cyfansoddiad llyfrau y Beibl wedi eu troi o'r neilldu; mae ei safle fel beirniad wedi ei adael yn mhell ar ol gan y beirniaid ydynt wedi codi er ei amser ef. Ond ni leiha hyn ddim ar werth yr hyn a wnawd ganddo. Y *pioneer* sydd yn gorfod gwneud y gwaith garw, yn gorfod dioddef; efe hefyd a'i gwna yn bosibl i'r cenedlaethau a ddel i feddwl, i gredu, ac ymchwilio mewn tawelwch. Eilun oedd y Beibl yn Mhrydain cyn ei amser ef, ond er yr adeg hono mae llawer wedi ei wneud i ddiosg y Beibl o'r cymeriad hwn, ac i ddangos beth yw ei wir gymeriad—llyfr o waith dynion fel llyfrau eraill; a'r *pioneer* yn y gwaith hwn oedd Dr. Colenso.

GWEINIDOG Y MYNYDD.

GAN TUDFATHAR.

IX.

Rhed, rhed, rhed,
Hyd dy greigiog làn O li';
Ond ni ddaw mwynderau y dyddiau gynt
Fyth mwyach yn ol i mi.

Saif Coleg Abertaf ar lan y môr. Dyrch ei dyrau urddasol uwch rhuadau tragwyddol y don, gan syllu yn falch dros wanegau gwyrddion yr Atlantig. Yma y mae awelon y gorllewin yn chwythu yn ddidor, gan roddi bywyd newydd fythol i'r corph a'r meddwl ieuanc ar draeth y weilgi. Y mae'r Dwyrain o'r tu ol, yn sefyll am ddoethineb y dyddiau fu; a'r Gorllewin cyfrin o'r tu blaen, yn sefyll am wyddorau diderfyn y dyfodol anhysbys. Iawn fan am deml addysg ydyw Abertaf; nid yn unig mewn sefyllfa, ond hefyd yn mhob ystyr ag y mae coleg da yn gyfoethog—mangre iach, dawel, brydferth; mangre ganolog i Dde a Dwyrain; a man hynod erioed am ei gysylltiadau addysgol.

Yma y cawn Nwyfa Roberts, yn ei dosparth yn y Coleg, yn ei hystafell fechan yn Neuadd fawr yr efrydesau, neu wrthi ei hun ar lan y don a llyfr yn ei llaw. Fel llawer o ferched ieuainc y Coleg gweithiai Nwyfa yn gydwybodol; ac yr oedd llwyddiant yn dilyn ei llafur. Mynych y gwelid 'olew'r canol nos' yn llosgi yn ei hefrydfa yn y Neuadd, a'i belydr gwan melynaidd yn treiddio allan dros donau'r môr drwy'r tywyllwch. Yn ddiweddar yr oedd ei chyd-efrydesau wedi sylwi fod gruddiau Nwyfa yn welwach nag arfer; ac yr oedd yn sylw cyffredin yn eu mysg: 'Onid yw Nwyfa Roberts yn gweithio yn galed yn ddiweddar, rhaid ei bod wedi gweithio drwy y gwyliau?' Ychydig wyddent nad Horace a Virgil oedd yn gyfrifol am lwydni bochau Nwyfa! Mor fychan yw ein gwybodaeth am amgylchiadau ein gilydd wedi'r oll! Pwy o honom wyr am haner gofidiau hyd yn nod ei gyfaill mwyaf mynwesol? Ie pwy a wyr am ei ddedwyddwch hefyd?

Yr ydym yn ysgrifenu y llinellau hyn ar fwrdd llong mewn gwlad bellenig, wrth lan afon. Ar y lan y mae dyn yn anterth ei nerth, yn eistedd ar ddarn o bren, ac yn chwerthin mor ddiniwed a disynwyr a phlentyn tair oed. Adnebydd y morwyr i gyd, ac y maent yn hynod garedig iddo, ac yn cyfranu iddo yn eu dull trwsgl eu hunain fara a thê a choffi, ac yn y blaen. A thyna sylw pawb, 'onid yw yn drueni am dano!' Ie, y mae yn drueni am dano yn ddiamheu, ond dichon na wyr ddim am ei wendid, nid yw y foru yn ei flino, a thra bo'n iach, nid yw ei ofidiau yn fwy nag eiddo'r plentyn diniweitiaf. Gallu rhyfedd yw gwybod, a gallu mwy fyth, a mwy rhyfedd fyth yw gwybod ein bod yn gwybod. Ond gallu ofnadwy ydyw hefyd—gwybod ein bod yn teimlo, a theimlo ein bod yn gwybod hefyd. Ond dyna oeddym ar fedr ddweyd pan yn son am y dyn diniwed ar lan yr afon, mor ychydig wyddom am deimladau ein gilydd, ac am hanes ein gilydd; yn enwedig gan fod y teimladau mwyaf mewnol, a chan hyny yr hanes mwyaf mewnol fel rheol yn nghudd.

Un hwyr o Hydref cynar yr oedd Nwyfa wrth ei hun ar y traeth, yn dwfn astudio llenyddiaeth Seisnig, a chyfrol fechan o'r beirdd yn ei dwylaw. Yr oedd y creigiau yn codi'n serth a daneddog o'r tu ol, ac o'i

deutu ; a chregin a gwymon yn tyfu arnynt hyd linell uchaf y llanw. O'r gorwel yn y pellder ymroliai tòn ar ol tòn gan dori'n ewyn arian ar y tywod gerllaw. Hedai gwylanod llwydwynion uwch ei phen, ac ambell i forfran ddu unig yn y pellder, ac yn y creigiau o gylch gwawchiai y gigfran yn oer ac adseiniol. A thrwy'r cyfan i gyd torai ar ei chlust ddwndwr rheolaidd y dôn a dorai ar y tywod.

Yr oedd Nwyfa yn trosglwyddo i'w chof ddarnau o farddoniaeth yma a thraw o'r gyfrol, a gallasai rhywun gerllaw ei chlywed yn adrodd yn uchel, a'r llyfr yn nghau yn ei llaw, ddarnau fel :—

Break, break, break,
On thy cold grey crags, O sea ;
And I would that my tongue could utter
The thoughts that arise in me.

A syllai dros donau'r môr draw yn mhell, a chodai deigryn hallt o'i bron i'w llygad. Yr oedd prudd-der melus llinellau anfarwol Tennyson yn cydfyned a'i hyspryd yr hwyr hwn. Yr oedd ei henaid fel y môr o'i blaen, yn dawel, yn eang, a rhyw furmur dwfn o brudd-der yn swnio drwyddo i gyd. Fel yr adroddai benill ar ol penill iddi ei hun, weithiau o'r llyfr agored, ac weithiau o'i chof, teimlai y *background* hwn o ofid gwan yn ei bron, heb feddwl yn neillduol beth oedd ei achos. Ar yr un pryd crwydrai ei meddwl weithiau at y cwch acw draw ar môr, weithiau at y wylan acw ar dywod y traeth, yna at helyntion y Coleg, at ei arholiadau, at ei chyfeillesau, yna gartref at ei mham a'i thad, tra'r holl amser yr oedd tònau bychain o brudd-der yn curo yn ddibaid yn ei bron, gyda phob ergyd o'i chalon ieuanc braidd, yr hon hefyd a adroddai wrthi ei hun mewn dull prophwydol :—

'*Break, break, break,*'

Y mae'r meddwl dynol yn llai syml nag y tybir yn aml ei fod ; y mae iddo haen dan haen nas sylwir yn aml ei bod yn bodoli. A thyna feddwl Nwyfa yn gywir. Yr oedd ei hefrydiaeth o farddoniaeth yn cadw ei meddwl rhag holi ei hun, ac am amser hir eisteddodd ar y traeth, yn gadael cysylltiadau y môr a'i theimladau ei hun i gylymu ei hunain yn anwahanadwy a'r hyn oedd yn ddarllen. Yn wir dyma wir werth llawer o'r hyn a ddysgwn : y cysylltiadau a hongiant wrtho fyth. Onid oes i aml linell, neu aml adnod, neu aml emyn, ei addurniadau cysylltiadol ydynt yn aml yn fil mwy cyfoethog na dim sydd yn y peth ei hunan? Cofiwn yn dda unwaith deithio drwy un o ystrydoedd budraf tref fawr weithfaol yn Neheudir Cymru. Ar bob llaw yr oedd sorod, a gwarth, a phechod cymdeithas yn amlwg i'r llygad a'r clyw. Anhawdd darlunio dim mwy isel. Ond o ddrws bwthyn budr tarawodd ar ein clust, mewn llais melus, clir, benywaidd yr hen emyn :

O iachawdwr pechaduriaid
Sydd a'r gallu yn dy law, &c.

ar yr hen dôn ber-wylofus 'Diniweidrwydd.' Yr oedd tywallt deigryn yn weithred anorfod. Paham? Daeth caeau gwyrddion boreu oes yn ol gyda'r emyn. Daeth bwthyn gwyn diaddurn, ond dedwydd, ddydiau mebyd o flaen fy llygad. Daeth cof am rai anwyl nad ydynt mwyach fel arogl ar edyn yr awel. Daeth yr hen gapel yn nghanol y wlad yn ol, a gwyneb yr hen weinidog oedd dan y dywarchen er's blynyddau maith. I mi yr oedd cysylltiadau'r emyn mor anwyl, mor gysegredig !

Ychydig feddyliai Nwyfa yr hwyr hwn pa gysylltiadau cysegredig, mil mwy gwerthfawr na'r hyn a drosglwyddai i'w chof—oedd yn wau am linellau megys :—

'*Break, break, break,*'

Ond dihunodd o'r gymysgfa o feddyliau, ac mewn moment fflachiodd o' blaen wyneb gwrol agored, llygaid llon ond treiddgar Geraint ; a chur-

odd ei chalon yn gynt, ac am enyd anghofiodd y beirdd a'r môr, a'r graig safadwy dan ei throed. Gollyngodd ffrwyn i'w theimladau am fynud, a chymerodd fantais lawn ar y *luxury* o gwmni Geraint yn yr yspryd! 'Ond, na,' meddai, 'mi goncraf y teimlad. 'Dyw hi wiw i mi roddi ffordd i deimladau fel hyn. Ceisiaf ei anghofio. Dyna fydd oreu iddo ef a minau. Nid wyf yn deilwng o hono, ac ni wnawn ond dwyn terfysg a thrwbwl i'w fywyd pe bawn yn ei ——. Ond dyna ni wnaf feddwl mwy am dano,' ac agorodd ei llyfr eto, ac yr oedd mewn ychydig amser yn ddwfn yn astudio '*Princess*' Tennyson. Ond er dilyn y bardd drwy erddi a phalasau y dywysoges a'i gosgordd fenywaidd, methodd gadw Geraint allan yn hollol. Yr oedd yn ferch o ewyllys gref, ac ymladdodd ymladdfa deg, ac i raddau gorchfygodd.

Erbyn hyn yr oedd nos ddistaw fwynaidd Hydref yn disgyn, a'r haul yn taflu ei belydrau cochion o'r tu hwnt i'r gorwelion i fyny ar odreuon cymylau ysgeifn y Gorllewin, a'r môr yn ei dro yn adlewyrchu gwrid y ffurfafen. Yr oedd yr awel fel wedi myned i orphwys gyda'r nos, ac nid oedd dim yn taro ar glust Nwyfa ond

'Ust! y don yn distewi.'

Yr oedd y llanw yn dod i mewn yn gyflym. Yn wir yr oedd y môr yn dechreu llyfu ei throed cyn iddi lawn ystyried y sefyllfa. Cymerodd ei llyfr o dan ei chesail, a rhedodd mor gyflym ag y medrai i gyfeiriad y dref. Mor dolciog oedd y ffordd, fel y llithrodd unwaith neu ddwy, gan waedu ei dwylaw mewn amryw fanau. Gwyddai os y cyrhaeddai fan neillduol wrth waelod y graig mewn pryd, y gallai fyned adref yn ddiogel, ond os oedd y llanw eisoes wedi cyrhaedd yno, ei bod yn rhy ddiweddar, a'r Nefoedd yn unig a wyddai beth ddelai o honi. Yr oedd y goleu wedi llwyr gilio o'r gorwel erbyn hyn, a'r nos yn myned yn dywell iawn. Curai calon Nwyfa yn gyflym wrth neshau at y fan lle yr oedd y llanw a'r graig i gyfarfod gyntaf, a phan ddaeth i'r fan, cyflawnwyd ei hofnau; yr oedd y dwfr yno amryw droedfeddi o ddyfnder eisoes. Ei meddwl cyntaf oedd tynu ei hesgidiau a'i hosanau, a myned drwy'r dwfr, ond nis gwyddai pa mor ddwfn allai fod, ac yr oedd erbyn hyn bron yn hollol dywyll. Yr oedd y dref gryn bellder eto, ac nid oedd o nemawr ddefnydd waeddu.

Eto dyna'r unig beth i'w wneud. Nis gwyddai pa mor uchel y dichon y llanw ddod y noson hono; os oedd y lloer yn gyflawn gwyddai nad oedd bosibl dianc, gan fod y creigiau o'r tu ol iddi yn codi i fyny mor llyfn a gwelydd ty, ac nid oedd modd eu dringo. Gwaeddodd yn gryf am help. Ond am beth amser ni chlywai ddim. Yn mhen ychydig clywodd swn troed o'r tu ol, a dychrynodd yn fwy fyth. Yna gwaeddodd llais yn ei hymyl, yn Saesneg, 'Pwy sydd yna?' Ac atebodd Nwyfa, 'Y mae'r llanw wedi fy nal, ffordd gallaf fynd adref?'

'Yr wyf finau wedi fy nal hefyd, mi gysgais ar y graig y fan draw hyd nes i'r tonau ddechreu golchi troswyf. Un o foneddigesau'r Coleg ydych?'

'Ie, ai un o'r efrydwyr ydych chwi? Nid wyf yn gallu gweld eich gwyneb.'

'Ie, siwr, os nad wyf yn camgymeryd, yr ydym yn yr un dosparth; ond nid oes amser i siarad, y mae'r môr yn dod i fewn yn gyflym, ac y mae'n rhaid tynu sylw rhywun.'

Ar hyn, gwaeddodd y gwr ieuanc, canys dyna beth oedd, yn uchel, ond am fynudau hirion nid oedd dim ateb. O'r diwedd clywodd ateb o'r lan draw, yn gwaeddu beth oedd yn bod. Yna gwaeddodd y gwr ieuanc am gwch; ac yn mhen rhyw haner awr daeth dau bysgotwr at y graig, mewn bad bychan. Erbyn hyn yr oedd y llanw wedi gyru Nwyfa a'i chydymaith i'r gongl eithaf yn y creigiau, ac ni ddaeth y bad atynt fynud yn rhy gynar Wedi ychydig o lywio a thaclu ar y cwch, cafwyd Nwyfa i mewn, a dilynwyd hi gan yr efrydydd. Yn mhen rhyw ugain mynud yr oedd Nwyfa ar y ffordd o'r

traeth i'r Neuadd, a'i chydymaith gyda hi. Ymadawsant wrth y drws, ac aeth Nwyfa i mewn. Dyma'r foment gyntaf y daeth i'w meddwl ei bod yn hwyr. Yr oedd gryn awr a haner yn ddiweddar yn ol yr awr apwyntiedig i fyned i mewn i'r Neuadd yn yr hwyr. Aeth Nwyfa i'w hystafell, ac eisteddodd i lawr yn hollol flinedig. Yr oedd wedi tynu oddi am ei thraed er mwyn ymneilldduo i orphwys pan ddaeth cnoc wrth y drws. Gwaeddodd Nwyfa: '*Come in.*' '*Please, Miss, the Lady Principal would like to see you in her room as soon as you can go*' oedd neges y forwyn wrth y drws.

Gwisgodd Nwyfa ei hesgidiau eilwaith, ac aeth i lawr i wel'd y *Lady Principal*; a churai ei chalon yn gyflym. Yr oedd golwg urddasol y foneddiges hon, a'r *pince-nez* aur ar ei thrwyn, a thalcen eang *stern*, yn ddigon i daro ofn i'r mynwesau ieuainc oedd dan ei chronglwyd. Curodd Nwyfa'n ofnus wrth ddrws yr ystafell, a gwaeddodd y *Lady-Principal* mewn llais hyf a gwrol bron, '*Come in.*'

Yr oedd un olwg ar y benaethes yn ddigon i brofi i Nwyfa fod yna rywbeth allan o le. Yn Saesneg, wrth gwrs, oedd yr ymadrodd canlynol, ond ceisiwn ei Gymreigio fel hyn:—

'Nos da, Nwyfa,' 'Nos da, Miss ——.'

'Pa'm yr ydych mor hwyr a hyn yn dod i mewn heno?'

'Fe'm daliwyd gan y *tide*, Miss——'

'O yn wir, a phwy oedd yno heblaw chwi?'

'Wrth fy hun, yr oeddwn, Miss——, hyd nes i Mr. Smith fy ngweled, a gwaeddu am gwch.'

'Ie, yr oeddwn wedi clywed fod Mr. Smith wedi myned i'r traeth, ac yr oeddwn wedi eich gweled chwi yn myned yno hefyd.'

'Wel, nid gwiw i ni wastraffu amser i'ch holi, ond y mae llythyr wedi dyfod i mi gyda'r *Post* heno, yn dwyn cyhuddiad tra difrifol yn eich erbyn. Os yw yn wir gwyddoch chwi cystal a minau beth ydyw, os nad ydyw gwir, goreu i gyd. Ond yn ngwyneb y ddwy ffaith hon, nid oes genyf ddim i wneud ond ceisio genych fyned adref foru. Yr wyf wedi anfon gwifreb at eich rhieni i'w hyspysu o'r ffaith. Os y try pethau allan yn wahanol, cewch dderbyniad yn ol i'r Coleg.

[I'W BARHAU.]

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Y Pwyllgor, Gorphenaf 23ain, 1903. Adroddiad yr Ysgrifenydd.

Nis gellir dweyd fod unrhyw symudiad neillduol o'r newydd wedi tori ar draws tawelwch arferol y cyfundeb bychan y perthynwn ni iddo fel Eglwysi Undodaidd Cymreig yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Oddiar y cyfarfod blynyddol o'r blaen mae y Parchn. J. P. Kane o Goleg Caerfyrddin a E. O. Jenkins o'r Coleg Undodaidd yn Manchester wedi eu sefydlu fel gweinidogion yn Nowlais, a Llwynrhydowen a Chapelyfadfa; mae y Parch. D. Rees wedi gadael y ddwy Eglwys yn Cwm Rhondda i gymeryd gofal am yr achosion yn Mhenybont a'r Wîg. Yr ydym yn gobeithio na fydd Undodiaid gwasgaredig Cymoedd Clydach

a Rhondda ddim yn cael eu gadael yn hir heb fugail i ofalu am danynt. Llawenhawn fod yr Eglwys luosog a gweithgar o dan weinidogaeth ffyddlon y Parch. T. J. Jenkins, er yn llafurio o dan anfantais dyled sydd i ryw fesur o hyd yn aros, eto mor llawn o ffydd a gobaith yn ei hachos yn gystal a chariad tuag ato, fel y mae wedi penderfynu ymgymeryd ag adeiladu Festri sydd mor angenrheidiol ar gyfer ei gweithgarwch a'i bywyd cynulleidfaol. Da genym glywed fod y Parch. R. C. Jones, ar ol ymdrechion hir, hunanaberthol a chlodfawr ar ran y drysorfa adeiladu, yn gallu gweled erbyn hyn derfyn llwyddianus ei holl lafur, ac y bydd capel newydd prydferth Brondeifi yn barod i gael ei agor yn ystod y flwyddyn nesaf yn ddiddyled. Disgwyliwn mai y mudiad nesaf yn Sir Aberteifi fydd adeiladu yr Orsaf Genadol yn Sychbant ar gyfer yr achos gobeithiol sydd wedi tyfu i fyny yno mewn canlyniad i ymdrechion un o genhadon mwyaf galluog a phrofedig yr Efengyl Undodaidd. Dylem hefyd gyfeirio at yr ymdrech sydd wedi ei gwneyd gan rai o drigolion Aberystwyth, yn gystal a'r ychydig fyfyrwyr Undodaidd yn y Coleg, i gychwyn gwasanaeth Undodaidd yn y dref. Mae y mudiad yn awr yn ei ail flwyddyn. Cyfarfyddid ar y dechreu mewn ystafell a roddid yn fenthyg trwy garedigrwydd y Parch. G. Eyre Evans. Symudwyd oddiyno oherwydd prinder lle i'r *Assembly Rooms*, ac yn awr cynhelir y gwasanaeth mewn ystafell bwrpasol yn Neuadd y Farchnad. Mae Pwyllgor o dan lywyddiaeth Mr. Joinson, Pier Street yn cario y gwaith yn y blaen ac yn trefnu y *supplies* o Sul i Sul. Mae llwyddiant a pharhad y mudiad hyd yn hyn yn ddyledus yn neillduol i ffyddlondeb y myfyrwyr megis J. Park Davies, D. J. Davies, W. G. Morris (Aberteifi), Misses Lena Jones, Bessie Evans, &c. Gwneir casgliad bob Sul, a chan nad yw'r treuliau yn fawr, mae'r achos yn cynal ei hun gyda'r eithriad o ryw bunt a gyfranwyd fel *grant* gan y Gymdeithas hon at lyfrau emynau yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Mae hwn yn faes pwysig, gyda'r mwyaf pwysig yn Nghymru, a gobeithiwn fod dyfodol llewyrchus yn ystôr i'r mudiad sydd mor fanteisiol i gynyrchu dylanwad ar ein bywyd cenedlaethol. Yn nghanol y marweidd-dra, y diffyg dyddordeb a brwdfrydedd sydd yn nodweddu bywyd crefyddol y dyddiau hyn, credwn ein bod fel Undodiaid yn llwyddo i ddal y tir ydym wedi enill, er mai ychydig ydyw hyny i ymffrostio ynddo. Carem weled mwy o ffyddlondeb gyda'r cynulliadau o Sul i Sul, mwy o sêl a mwy o awydd i fod o help sylweddol gyda gwaith yr Ysgol Sul a changenau ereill y bywyd eglwysig, mwy o gydymdeimlad a help yn cael ei estyn i'n gweinidogion a lafuriant o dan lawer o anfanteision, ac ambell waith o dan y teimlad anobeithiol fod eu holl waith yn ofer.

Gallwn ddweyd fod un adran o waith y Gymdeithas wedi bod yn weddol lwyddianus a phrisio pethau yn ol y raddfa Undodaidd. 'Rwyf yn cyfeirio at YR YMOFYNYDD. Darfu i'r cylchrediad gynyddu rai ugeiniau yn ystod yr haner blwyddyn diweddaf. Tebyg fod hyn yn ddyledus i'r *stori* a ymddengys ynddo o fis i fis, o'r hyn lleiaf, deallaf ei bod yn deimlad cyffredin fod y nofel yn ychwanegiad gwerthfawr at gynwys y papyr ; a da genym glywed o amser i amser fod darllen mawr arni, a bod ein pobl ieuainc o'r diwedd wedi dyfod i gredu eu bod yn werth iddynt hwy i edrych i mewn i'r papyr. Mae'n gefnogaeth fawr i'r rhai ag y mae cyfrifoldeb y papyr yn gorphwys arnynt fod cystal swm yn cael ei sicrhau bob blwyddyn hyd yn hyn trwy yr hyspysiadau. Ond dylid cofio nad yw hyn ddim yn cael ei wneyd heb lawer o lafur ar du y ddau olygydd ac yn neillduol un o honynt. Mae'n bleser mawr genyf hefyd i ddweyd nad yw'r Trysorydd ddim wedi cael lle i achwyn o gwbl eto fod y dosparthwyr a'r derbynwyr yn hwyrfrydig i dalu y biliau pan y deuant yn ddyledus. 'Does yr un anhawsder wedi bod ar y mater hwn. Credaf

fod diffyg wedi cael ei deimlo yn y cyfeiriad hwn yn y blynyddoedd sydd wedi pasio. A ydyw ein moesoldeb masnachol ni fel Undodiaid yn gwella? Neu a oes gan y ffaith hon rywbeth i wneud a'r mater fod ein Trysorydd parchus yn Gyfreithiwr? O'r hyn leiaf mae sefyllfa arianol Trysorfa YR YMOFYNYDD ar hyn o bryd yn hollol foddhaol. Un peth cyn terfynu. 'Rwyf wedi gosod i lawr fel mater i wneud sylw o hono heddyw gyflenwad y weinidogaeth Undodaidd Gymreig yn y blynyddoedd dyfodol. Mae hyn, fel yr ymddengys i mi, yn un o'r pynciau mwyaf difrifol sydd yn teilyngu ein sylw ar hyn o bryd, a gobeithio bydd iddo gael yr ystyriaeth ag mae yn hawlio.

GWEITHREDIADAU Y PWYLLGOR.

Cyfarfyddodd yn yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar, dydd Iau, Gorphenaf 23ain, 1903, am 8.30 o'r gloch, y Llywydd—y Parch. T. Lloyd Jones yn y gadair. Cadarnhawyd manylion y cyfarfodydd o'r blaen ac arwyddnodwyd hwy gan y Llywydd. Darllenodd yr Ysgrifenydd ei adroddiad blynyddol a welir yn argraffedig yn y rhifyn hwn a derbyniwyd ef. Yn absenoldeb y Trysorydd darllenodd yr Ysgrifenydd y Fantolen (*Balance Sheet*) ond gan nad oedd wedi ei barchwilio, gorchymynwyd iddi yn ol penderfyniad a wnaed y llynedd i gael ei dwyn yn mlaen yn nghyfarfod yr Hydref. Yr oedd y *Balance* yn £45 16s. 9c. ar gyfrifon priodol y Gymdeithas. Ar gyfrifon YR YMOFYNYDD yr oedd y *Balance* a chymeryd i fewn y swm mewn *reserve* yn y Banc yn £82 4s. 10c. Dewiswyd yn archwilwyr (*auditors*) am y flwyddyn Mr. Daniel Evans, Glan Teifi, Llandyssul a Mr. Tom Thomas, Cyfreithiwr. Dewiswyd y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford yn Is-gadeirydd am y flwyddyn nesaf, yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd i aros fel o'r blaen. Y Cyfarfod Blynyddol nesaf i fod yn Llanbedr, y pregethwr i gael ei apwyntio eto. Cyfarfod Chwarterol yr Hydref i fod yn Mhantdefaid, y Parch. R. J. Jones, M.A. i bregethu. Gosododd yr Ysgrifenydd adroddiad y Pwyllgor Arianol gerbron a chymeradwywyd y *grants* canlynol:—£5 at yr achos yn Sychbant, £5 i dalu am *supplies* yn Clydach a Pentre, £5 i'r Nottais, £3 i Cwmbach, £3 i Trebanos, £3 i Dowlais, £3 i Rhydygwin a Chiliau; yr oll at y weinidogaeth yn y lleoedd a grybwyllwyd; £2 i Caeronen at *supplies*; yr un swm i Alltyplacca; £6 ar gyfer y *Postal Mission* Cymreig; £6 ar gyfer treuliau teithio y gweinidogion i'r Cyfarfodydd; £1 5s. ar gyfer treuliau neillduol mewn cysylltiad a'r Cyfarfod Blynyddol y llynedd yn Gellionen. O drysorfa YR YMOFYNYDD—£12 i'r ddau Olygydd; £2 i Olygydd y Farddoniaeth; £2 i Awdwr y Nofel. Cytunwyd ar gynygiad y Parch. T. J. Jenkins ac eiliad y Parch. J. Hathren Davies, fod adran ddirwestol i gael ei sefydlu mewn cysylltiad a'r Gymdeithas ac apwyntiwyd yn Llywydd y Parch. R. C. Jones; Ysgrifenydd, y Parch. Hathren Davies; Trysorydd, Mr. J. R. Evans, Cefncoed. Gohiriwyd ystyriaeth o fater cyflenwad y weinidogaeth i'r cyfarfod nesaf. Gwnaeth y Parch. D. Rees, Penybont, araeth frwdfrydig yn galw sylw at y colledion sydd yn digwydd wrth fod Undodiaid ieuainc yn symud o fan i fan, heb fod darpariaeth yn cael ei gwneud yn mlaen llaw i wneud cartref parod iddynt mewn eglwysi Undodaidd a ddichon fod yn gyfleus.

"BETH A DYBYGWCH CHWI AM GRIST."

Maer gofyniad uchod, a roddwyd gan Iesu Grist i'w ddysgyblion yn agos i 1900 o flynyddau yn ol, heb ei ateb eto i foddlonrwydd cyffredinol. Yn nghwrs y cyfnod hwn mae'r farn boblogaidd am Iesu Grist wedi myned trwy gyfnewidiadau parhaus. Cydnabyddir ei bod yn cyfnewid heddyw. Mewn llyfryn bychan a ddaeth i'n llaw yn ddiweddar dywed yr awdwr mai "tuedd yr oes yw anwybyddu y dwyfol yn Nghrist." Byddai yn nes i'w le pe dywedai mai tuedd yr oes yw ei amddifadu o'r cymeriad sydd wedi ei briodoli iddo er yn gynar yn y cyfnod Cristionogol. —y cymeriad o Dduw-ddyn. Gwelir y duedd hon yn amlwg yn llenyddiaeth yr hyn a elwir yn "Dduwinyddiaeth newydd" yn yr enwadau Uniongred. Bu llawer o son am hon er's blynyddau yn ol, ac achosai lawer o ofid i geidwaid y ffydd. Ni chlywir cymaint am dani yn awr, fodd bynag dan yr enw uchod. Nid ei bod wedi colli ei gafael ar feddyliau ei phrophwydi yw y rheswm am hyn. Nid oes amheuaeth nad yw gogwydd llawer—nifer cynyddol yn wir—o arweinwyr meddyliol blaenaf rhai o'r enwadau uniongred tuag ati; ac y mae'r dychryn a berodd yn y gwersyll pan wnaeth ei hymddangosiad gyntaf erbyn hyn bron darfod. Ond tra mai gogwydd y "Dduwinyddiaeth Newydd" yw amddifadu'r Iesu o'i gymeriad fel Duw, mae yn pwysleisio'r olwg arno fel "dyn dwyfol"—yr unig olwg arno sydd yn boddloni rheswm a deall goreu dyn. Yr Eglwys sydd gyfrifol am y syniad o "Dduw-ddyn." Mae yn ffaith hanesyddol na ddaeth y syniad o Dduwdod Crist i oruwchafiaeth yn yr Eglwys am gyfnod maith, amryw ganrifoedd ar ol y croeshoeliad; a damwain fu iddi i gael yr oruwchafiaeth o gwbl. Ni ddywedodd Iesu ei hun ddim ag y gellir ei ystyried fel prawf o'i Dduwdod. Ond, ar y tu arall, nid oes prinder o ddywediadau o'i eiddo ydynt yn profi ei feidroldeb. Credwn y cyfaddefa pob crediniwr deallgar yn ei Dduwdod, na roddodd Iesu ei hun un datguddiad eglur o'r syniad hwn. Ac os yw'r athrawiaeth mor bwysig ag y dywedir ei bod, beth ddywedwn am ei esgeulusdod i'w dysgu mewn iaith ddealladwy. Ond y mae yn hollol ddystaw yn ei chylch. Mae ysgrifenwyr yr oll o'r Epistolau yn hollol ddystaw hefyd. Dichon y gall rhywun ddwyn i gof Phil. ii. 5—8. Gyda golwg ar yr adnodau hyn, mae hyd yn nod esponwyr uniongred yn methu cytuno parthed yr esponiad priodol o honynt; ac mae yn amlwg felly nad yw eu hystyr yn hollol eglur. Ond defnyddia Paul mewn Epistol arall y geiriau canlynol: "Canys un Duw sydd, ac un cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y *dyn* Crist Iesu." Nis gellir camddeall y geiriau hyn; ac ni raid wrth "dduwinydd gwybodus' i'w hesbonio: gall y plentyn eu deall. Gellid cyfeirio hefyd at frawddegau ereill yn yr Epistolau i'r un perwyl. Os yw Paul yn Phil. ii. 5—8 yn dysgu'r athrawiaeth o Dduwdod Crist, beth ddywedwn am ei gysondeb? Nid yw'r frawddeg "Duw a ymddangosodd yn y cnawd" ychwaith yn cyfeirio at yr athrawiaeth o Dduwdod Crist. Gyda golwg ar y syniad hwn, cydnabydda awdwr y llyfryn bychan y cyfeiriwyd ato eisoes mai "dirgelwch ydyw i'w gredu, ac nid i'w amgyffred." "O dywyllwch dysgleiriaf" oedd ddesgrifiad arall o hono a roddwyd ganrifoedd yn ol. "Dirgelwch eglur" fyddai ddesgrifiad arall o hono llawn mor gymhwys. Ac mae un desgrifiad mor ddiystyr a'r llall. Yn ngwyneb hyn onid gwell fyddai boddloni ar ddysgeidiaeth Iesu? Ni cheisiai efe ddyrysu ymenyddiau dynion a syniadau anesponiadwy; eithr nodweddau amlycaf ei ddywediadau ef yw symlder ac eglurder.

ADOLYGIAD.

YN OL AT IESU.*

Mewn *passage* yn un o bregethau Phillips Brooks mae e'n dychymygu tri dyn yn sefyll mewn cae. Mae un yn crio allan, "O! mor gyfoethog ydyw'r *soil*"; y llall, "mor brydferth ydyw'r maes hwn pan mae gwlith y bore yn gemu ei wyneb o dan lewyrch yr haul ar ei gyfodiad"; y llall, "mor ryfeddol a dyeithr ydyw fel trysorfa dirgeledigaethau yr amser a fu." Mae y tri dyn yn prynu y cae ac yn ei ranu, ac ar ol i flwyddyn fyned heibio dywed un o honynt—dowch i fewn i'r ysgubor i chwi gael gweled ffrwyth y cynhauaf; meddai'r llall, dowch yma, gwrandewch ar y farddoniaeth mae prydferthwch y maes wedi ysprydoli yn fy nghalon i; meddai'r trydydd, gwelwch y fath gasgliad o weddillion daearegol ydwyf wedi bigo i fyny yn y cae. Yr oedd y tri yna yn byw mewn gwahanol fydoedd, ac yr oedd pob un o honynt yn cymeryd ei fyd ei hun. Mae y byd allanol i ni yn rhanol yr hyn yw e'. Mae y rhan arall yn cael ei wneyd i fyny o'r hyn mae ein bywyd mewnol ni ein hunain yn gyfranu wrth edrych arno a meddwl am dano. Ni hefyd sydd yn gwneud ein Duw ein hunain. Golyga y tair llythyren sydd yn gwneud i fyny ei enw yn gynhwys yr hyn ydym yn wneud iddynt olygu. Nid yr un peth maent yn gynhwys i bawb. Nid yw'r Pabyddion, y Calfiniaid, yr Undodiaid, a'r holl wahanol enwadau yn addoli yr un Duw. Onid Theodore Parker ddywedodd wrth rywun mai ei Dduw oedd ei ddiafol ef? ac mae Max Muller yn ei *Autobiography* yn crybwyll dywediad o eiddo Dr. Pusey, nad oedd e' ddim yn addoli yr un Duw a Frederick Maurice er eu bod yn weinidogion o'r un eglwys. Nis gall Duw byth fod i ddyn yn ddim yn rhagor neu yn wahanol i'r hyn mae ef yn gymhwys i feddwl am dano, a hyny yw, y syniad goreu ac uwchaf ag y gall ffurfio am dano. Duw y barbariaid ydyw ei syniad uwchaf am Dduwdod wedi ei orseddu yn y nefoedd. Duw yr Iuddew oedd Jehovah yr Hen Destament, gwahanol iawn yn ei natur a'i briodoleddau i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Mae pob cenedl wedi myned trwy yr un profiad; mae wedi mabwysiadu ei syniad uwchaf ar y pryd o'r dwyfol wedi ei godi i ryw uchelfa dderchafedig, ac yna mae yn ei addoli.

Nid yr un Crist chwaith ydym ni yn edrych ato a'i edmygu. Yn ystod ei fywyd dim ond lleiafrif bychan a edrychent i fyny ato o gwbl. I'w gyfeillion a'i ddisgyblion a'i deallent yn rhanol yr oedd yn golygu y bywyd mwyaf dwyfol a chysegredig i bob peth da a rhagorol—mewn gwirionedd yn fab Duw ac yn Iachawdwr dynion. I eraill yr oedd cythraul ganddo, yr oedd yn ddyn glwth, yn yfwr gwin, yn ddyn digymeriad, cyfaill publicanod a phechaduriaid, gwehilion cymdeithas ei oes. Mae yr Iesu hanesyddol, Iesu yr Efengylau, Iesu y traddodiadau cyntefig, Iesu y bregeth ar y mynydd a'r damegion wedi diflanu o olwg yr oesau Cristionogol, ac mae Crist ffydd wedi cymeryd ei le. Mae y proffwyd syml o Nazareth a aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni wedi myned trwy y fath gyfnewidiadau dynol fel mae ei brydweddau dynol wedi myned i golli ar ei drosglwyddiad i fod yr ail berson yn y drindod. Dechreuodd

---

* YN OL AT IESU: Apel at Gristionogion Efengylaidd, gan y Parch. R. A. Armstrong, B.A., Liverpool Cyfieithiedig i'r Gymraeg gan y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoedycymer. Llandyssul: J. D. Lewis, Ager Argraffydd, Gomerian Press, 1903. Pris, 3c., trwy'r *post*, 3½c.

y cyfnewidiad hyd yn oed yn y Testament Newydd yn yr Efengylau cydredol: Iesu ydyw Messiah hirddisgwyliedig yr Iuddewon; yn ysgrifeniadau Paul efe yw yr ail ddyn o'r nef, ac fel y dywedai Dr. Martineau *ideal* dynoliaeth wedi ei hail-wneud. Yn y bedwaredd Efengyl mae yn ymgnawdoliad o berson dwyfol; yn nghredo Nicaea mae e'n Dduw o Dduw, llewyrch o lewyrch, gwir Dduw o wir Dduw, yn un hanfod a'r Tad; yn Nghredo St. Athanasius a chyffesiadau Protestanaidd mae wedi dyfod yn aelod o Drindod ddwyfol, yn ogyfuwch ac yn ogyhyd-tragwyddol a'r Tad. Yn y canoloesau mae yn Farnwr Dwyfol wedi colli y ddynoliaeth a'r tynerwch a berthynai iddo ar y ddaear, ac mae Mair, ei fam, yn eiriol gydag ef dros bechaduriaid tlodion. Crist ffydd yr eglwys heddyw, beth ydyw ond bod cyfansawdd, cynyrch mil o ddylanwadau ag mae meddyliau a rhagfarnau dynion wedi ddwyn i weithredu ar ei berson trwy yr oesau.

Un o arwyddion goreu yr oes hon ydyw yr awydd i wneud darganfyddiad o'r gwir Iesu, cloddio o dan yspwriel yr oesau Cristionogol, a cheisio dyfod o hyd i lun y brenhin yn ei degwch, fel mae e' wedi ei gladdu o'r golwg. Er ys blynyddoedd bellach mae y dyddordeb yn yr Iesu hanesyddol wedi cynyddu yn ddirfawr. Yr ydym am fyned yn ol at y bywyd gwirioneddol hwnw a dreuliodd y proffwyd yn Galilea. Mae dynion wedi eu boddloni erbyn hyn gyda golwg ar yr athrawiaeth am Grist, sut mae wedi tyfu i fyny, ac o ba ffynonellau mae wedi deilliaw; ac nid yw ryfedd fod y dyddordeb wedi ei drosglwyddo i'r ymdrech i gael gafael ar Iesu fel yr oedd, ac fel y symudai o flaen ei oes, ac mae'r ymdrech wedi ei chanlyn gan ffrwyth gwerthfawr. Dywedodd y diweddar brifathraw Edwards o'r Bala unwaith, os ydym yn cofio yn iawn, fod plant yr Ysgolion Sabbothol yn y dyddiau hyn yn gwybod mwy na wyddai Paul am Iesu Grist. Mae'n bosibl fod hyn yn wir; ond mae mor wired a hyny mai nid wrth ymgynghori ag ysgrifeniadau Paul na llawlyfrau Ysgolion Sabbothol Cymru mae yr oes hon wedi cael gafael yn y gwir Iesu yn fwy nag mewn un cyfnod arall oddiar ei ymddangosiad. Yr hyn a alwai Dr. Herber Evans unwaith mewn iaith ddirmygus yn *German barm* sydd wedi cyffroi a meithrin yr yspryd hwnw o ymchwiliad nad yw wedi petruso i ddefnyddio pob moddion possibl ac onest i gael gafael ar y gwir Iesu hanesyddol. Cri blynyddoedd cyntaf y ganrif newydd yw "Yn ol at Iesu" er mwyn deall, nid yn unig amgylchiadau allanol ei fywyd a nodweddion oes a gwlad a ddylanwadent ar y bywyd hwnw, ond hefyd gael cipolwg, os yn bosibl ar y ffynonellau cuddiedig, a'r cymhelliadau mewnol sydd wedi gwneud personoliaeth Iesu yn elfen mor bwysig yn hanes y byd.

Ni fyddai y llyfr bychan sydd wedi awgrymu y nodiadau uchod wedi ei ysgrifenu onibae y wedd newydd sydd wedi ei gosod ar astudiaeth y Testament Newydd gan ysgrifenwyr mawrion yr Almaen. Wrth hyn nid ydym yn golygu fod Mr. Armstrong yn efelychwr slafaidd o'u dulliau neillduol fel beirniaid. Yr hyn a feddyliem yw fod yr ysprydiaeth newydd yn y llyfr hwn sydd yn ei wneud yn astudiaeth onest, drwyadl ac ammhleidiol o'r pwnc wedi ei hamcanu yn unig i ddod o hyd i'r gwirionedd, ac i gael allan y gwir Iesu sydd nid yn unig tucefn i gyffesiadau ffydd yr Eglwys, tucefn i ysgrifeniadau Paul a'r bedwaredd Efengyl, ond tucefn hefyd ac o flaen yr holl Efengylau—y bywyd dwyfol a sanctaidd hwnw nad yw y goreu a'r symlaf o ysgrifeniadau y Testament Newydd ddim ond ymgais wan i osod allan bortread o hono. Mae yn *gredit* i Bwyllgor y Gymdeithas Undodaidd Gymreig ei bod wedi dewis y llyfr hwn i'w gyhoeddi; ac mae wedi bod yn ffodus neillduol i sicrhau gwasanaeth medrus y Parch. J. Hathren Davies fel cyfieithydd. Nis gellir dweyd fod arddull Mr. Armstrong yn rhwydd, ond mae y cyfieithydd

wedi llwyddo, fel y gallem ddisgwyl, i wneud y Gymraeg i redeg mor esmwyth, fel nad oes perygl i neb ystyriol gael ei adgofio o'r dechreu i'r diwedd ei fod yn darllen cyfieithiad ac nid y llyfr gwreiddiol. Anfonwn ein darllenwyr at y llyfr heb wneud un ymgais i osod crynodeb o hono o'u blaen. Mae y traethawd mor fyr ac mor rhad fel nad oes eisiau hyny.

DYSGYBL.

GOHEBIAETH.

MRI. GOL.—O bosibl, fod meddwdod yn llai niweidiol a drygionus na llawer pechod; er hyny, mae meddwdod yn bechod garw a gwrthun, amlwg a gwrthwynebus iawn; a pheth arall cyflawnir y pechod o feddwdod yn ngoleu haul ac yn llygad goleuni; mae llawer o bechodau eraill na wyddom ddim am danynt hyd nes y datguddir hwy yn eu heffeithiau, eithr y mae y meddwyn gymaint yn ngafael ei bechod, neu creda nad oes fawr neu ddim niwed ynddo, neu niwed o gyfan, yn wir, fel y mae y meddwyn wedi colli pob cywilydd yn nghyflawniad ei bechod fel na wrida ei gyflawni yn yr amlwg, yr hyn sydd yn mwyhau echryslonrwydd ei fai; ac o bosibl yr helpir i roddi y cyboeddusrwydd hyn i feddwdod gan y ffaith fod genym ddigon o dafarndai yn mhob lle gan mwyaf lle y gall dynion feddwi, ac yn wir trwyddedir hwy i bob pwrpas ymarferol, i feddwi dynion, oblegid trwyddedir llawer gormod o honynt fel y gallont gael bywoliaeth heb wneud hyny; heblaw hyn mae gofal awdurdodau heddgeidwadol mor llac ar ol y tafarnwyr, fel i raddau pell, y gallant wneud fel y mynont, ac y mae yr Ynadon yn dyner iawn hefyd o droseddau tafarnwyr, oherwydd y perygl i golli y drwydded.

Pasiodd y Llywodraeth hon gyfraith ragorol yn gwneuthur meddwdod syml yn drosedd cospawl, ond llythyren farw ydyw mewn llawer lle, ac o bossibl yn y rhan fwyaf o leoedd, oherwydd hoffder y bobl o bethau meddwol, a thrwy hyny mae'r awdurdodau yn wincio ar y troseddau yn y pethau hyn. Eithr beth bynag ellir ddywedyd er esgusodi meddwdod, er hyny arferiad bechadurus a gwrthun iawn ydyw; gwna ddarostwng dyn yn is na'r anifail, a dyg hyny oddiamgylch trwy goncro rheswm gan chwant a blys. Gwelir digon o arwyddion allanol o ddrwg meddwdod; ond diameu nad yw yr arwyddion allanol yn ddim i'w cydmaru i'r drwg mewnol: anmharu yr enaid, dinystrio y cymeriad, gwneud dyn yn elyn i Dduw. Gwna meddwdod anmharu y corph, anifeileiddio y wyneb, a phwy bynag sydd yn ymhoffi prydferthwch, heb son am foesoldeb y peth, dylai fod yn ddyfal a dewr i gadw ei hun rhag yfed, a rhoddi ffordd i ddod i hoffi pethau meddwol. Y nifer welais i yn ddynion a menywod hardd o wyneb ac o gorph wedi eu salwino am byth gan y pethau meddwol! Gwna meddwdod gymylu y meddwl, felly pwy bynag sydd yn hoffi meddwl bywiog a deallus, doeth ac amlochrog cadwed rhag y pethau meddwol, maent fel y darfodedigaeth ar y corph, yn gwywo ac yn delffo, ac yn dinystrio y gallu meddyliol, fel y mae dyn yn fynych a'r cynheddfau goreu yn dod trwyddynt yn fynych yn ffit i Bedlam. Gwna meddwdod ddinystrio y cymeriad. Gall y meddwyn fod yn ddyn

ffein, caredig, a haelionus a dawnus, ond y mae meddwdod yn nam anaele arno—dinystria gyfanrwydd a phrydferthwch y cymeriad goreu, tra y mae yn ddinystr hollol i'r cymeriad gwael, a chymeriad yw meddiant penaf pob dyn, fel y dywed Shakespeare, "Mae'r hwn a ladratta fy arian yn lladratta sothach (*trash*), eithr yr hwn a ladratta fy nghymeriad gwna ddwyn fy nhrysor penaf." Ymswyner rhag pethau meddwol, os am gael cymeriad da a rhagorol. Gwna meddwdod ddigio Duw. Mae Duw yn awdwr a chynhaliwr bywyd, yn roddwr pob bendith, a daioni, a llwyddiant, yn cyfranu hapusrwydd neu drallod i holl feibion a merched dynion, yn ol fel y gwel yn dda; efe yw yr un i'n tywys pan yn rhodio glyn cysgod angeu, ac efe ydyw Barnwr cyfiawn yr holl ddaear. Felly o flaen pob peth dylem ymdrechu boddio Duw, a chael ei ffafr, fel y byddo o'n tu yn ngwahanol drafferthion a gofidiau bywyd fel y gwnelo ein diogelu yn y temtasiynau gyfarfyddwn; wrth hyny, mae digio Duw trwy feddwdod yn un o'r ffolinebau a'r pechodau mwyaf disynwyr a drwg eu canlyniadau; bydd hyn yn felldith ini mewn bywyd, bydd hyn yn chwerw ac yn ddychrynllyd yn angeu. Gwna meddwdod *foddio y cythraul.* Dyma ein gelyn penaf, a'n gwrthwynebydd mwyaf haerllug a ffyrnig; gan hyny, mae boddio hwn yn awr yn un o'r canlyniadau gwaethaf ini yn y byd hwn, a thry allan y canlyniadau yn ofnadwy o ddychrynllyd yn y byd mawr tragywyddol. Gan hyny, ymgadwn rhag meddwdod fel gelyn o'r gwaethaf i ladratta ein hapusrwydd mewn bywyd, i'n rhwystro i gyflawni ein dyledswyddau i Dduw, yr hwn a'n rhwystra i gael hyder yn nydd trallod, ac a ladratta oddiarnom ffafr a gwahoddiad hyfryd y Barnwr i'r ffyddloniaid, "Deuwch, chwi, fendigedigion blant fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er cyn seiliad y byd."

Yr eiddoch, &c.,

D. Ff. Dafis.

CONGL YR AWEN.

ENGLYNION I'R HAF.

[PARHAD.]

Hoff yw'r Haf! aiff rhai o hyd—ar eu tro
I'r *traeth* i gael iechyd;
Rhyw adloniant gânt i gyd
Yn y man hwn am enyd.

Llawn o swyn, a mwyn yw y môr;—nid yw
Yn dewis dygyfor;
Ac ar ei gefn caria gôr *
O ryw ugain neu ragor.

---

* Côr y "cwch bach."

Hoffa rhai'r teg wanegau,—ac ereill
Garant y "ffynonau";
Caiff llawer dyn brigwyn, brau,
Rym a nawdd o'r mynyddau.

Onid mwyn ydyw myned—i goryn
Y Gaer * i gael gweled
Glân gyrau'r glyn agored,
A llwyni cu llawn eu ced?

Daw y claf o'i ystafell—gwên yr haul
Gwnna'r *hen* o'i babell;
Rhyw wr bach o oror bell
Lona bawb â'i lân *bibell.*

I'w hen sedd ar hoenus hynt—daw rhyw gâr
Diwryg iawn ei dremynt;
Gyda hwyl gwed ei helynt,
A daw i'w gof y dô gynt.

Y gwelw athraw gwywlyd—ddaw'n yr haf
Yn ddyn *rhydd* am enyd;
A'i "blant" a garant i gyd
Gael haf *a* gwyliau hefyd.

Ni gawn yn awr gan ein Naf—fèr adeg
Hyfrydol i'r eithaf;
I nyth yr hwn weithia'r haf
Ni ddaw gwae yn nydd gauaf.

Cawn weithian eirian oriau;—hir yw'r dydd,
A llonydd yw'r llynau;
Llon yw'r berth, a llawn yw'r bau
O dra siriol drysorau.

Pob pren, pob cangen, pob cwys—o'n daear,
Enw Duw a gynwys;
Efe â'i law fywiol, lwys,
Wna'n brodir yn baradwys.

Gwaith y Duwdod, òd ydyw;—i'w Lyw glân
Eilia glod yn hyglyw;
Mae'n hawdd i *minau* heddyw
Diwnio'i fawl—"*Mae'r byd yn fyw!*"

Glaslwyn Meh. 4, 1902. DEWI HEFIN.

* Caer Maesmynach, gerllaw y Cribyn.

PRIODASAU.

AWST 7fed, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Castellnewydd Emlyn, Morgan Lewis, Clydach Vale â Mary Evans, Llwyn Smithy, Llandyssul. Dymunwn iechyd da a phob cysur iddynt.

AWST 11eg, yn Pantdefaid, gan y Parchn. J. Davies, Alltplacca a T. Arthur Thomas, Dr. Evan Jones, Llanybyther â Getta, unig ferch y Parch. Thomas Thomas, Y.H., â Mrs. Thomas, Green Park, Llandyssul. Eiddunwn i'r ddeuddyn ieuanc flynyddau lawer, a'r bendithion goreu fo'n llanw eu bywydau.

AWST 30ain, yn Gellionen, o flaen y Cofrestrydd a'r Parch. T. J. Jenkins, unwyd mewn glân briodas Mr. Llewelyn R. Williams â Miss Elizabeth Bowen, y ddau o Trebanos. Bendith y nef arosb ar yr uniad, a llwyddiant mawr i'r pâr ieuanc.

MARWGOFION.

MEHEFIN 18fed, yn 43 oed, Anne, priod John Jones, 5, Pontshan, Llandyssul. Cariodd gorph gwanaidd am flwyddyn ond llanwai ei lle yn dda ar yr aelwyd fel priod a mam. Diniweidrwydd a charedigrwydd oedd y ddau flodeuyn prydferthaf yn ngardd ei bywyd a chredwn fod eu perarogl yn aros, ac i aros yn fendithion i'r ardal. Hyd y diwedd dangosodd ei hunig ferch bob tynerwch tuag ati, ac fe gredwn fod hyny yn ffynonell cysur iddi heddyw. Boed iddi hi a'i thad ymgysuro ac ymwroli. Claddwyd y Llun canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethodd y Parch. E. O. Jenkins.

GORPHENAF 20fed, Kitty Blodwen Davies, Temperance Hotel, Llanbedr, yn 14 mlwydd oed. Bu Kitty Blodwen farw yn hynod sydyn ac anisgwyliadwy yn nghanol ei gobeithion a'i disgwyliadau, ac yn nghanol gobeithion a disgwyliadau ei rhieni ac ereill mewn perthynas iddi, ar ol rhyw ddeuddeg awr yn unig o gystudd. Taflodd ei marwolaeth sydyn fantell o dristwch dros holl gylch ei pherthynasau a'i chydnabod, ac achosodd hefyd y cydymdeimlad llwyraf a'i rhieni a'i chwiorydd yn eu trallod blin. Yr oedd ar adeg ei marwolaeth mewn ysgol yn Llundain, a lletyai gyda'i chwaer, ac yr oedd sydynrwydd ei symudiad ynddo ei hunan yn ei wneud yn un byw a chyffrous; ac yr oedd y ffaith ei bod ar yr adeg yn edrych yn y blaen gydag hyfrydwch mawr at dd'od adref y dydd Gwener canlynol, ond yn lle hyny yn d'od adref o ran ei chorff mewn arch y Iau blaenorol yn ei wneud yn fwy felly fyth. Claddwyd ei gweddillion y Sadwrn dilynol yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur i dorf anarferol fawr gan weinidog y lle yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. L. Williams,

AWST 1af, Margaret Elizabeth, anwyl briod Mr. L. N. Williams, Caecoed, Aberdar, yn 54 oed. Gwraig ffyddlon, mam gariadus oedd Mrs. Williams, tawel a didwrw yn ei ffordd. Cas beth ganddi oedd pob math o ffug ymddangosiad. Er hyny, nid oedd heb yr elfen gwaith, cymerai

ddyddordeb gwresog yn yr Eglwys ac yn yr Ysgol yn Highland Place, a cheid hi bob amser yn barod lle'r oedd eisieu help a chydymdeimlad. Actiai ar awgrym yr Athraw, i beidio gadael i'w llaw aswy wybod beth oedd ei llaw ddeheu yn ei wneuthur. Cyflawnodd lawer caredigrwydd na chroniclir byth. Er yn ddioddefydd mawr er ys blynyddau, yr oedd yn hynod amyneddgar, ac nid achwynai byth fod ei thynged yn galed. Yn ei chartref, yn ei heglwys, ac yn yr ardal, gedy le gwag na ellir yn rhwydd ei lanw. Cymerodd yr angladd le ar y 5ed, yn y *Cemetery* newydd. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. J. J. George, ac ar lan y bedd gan y Parchn. R. J. Jones a H. Fisher Short. Gedy ar ei hol briod, a merch a phedwar mab, ac y mae pawb mewn cydymdeimlad dwfn a hwy yn eu galar trist.

"*God giveth quietness at last;*
The common way once more is passed,
From pleading tears and lingerings fond
To fuller life and love beyond."

—*H.F.S.*

AWST 3ydd, wedi blynyddoedd o gystudd, yn 78 mlwydd oed, Rachel James, Pwllcwarau, ger Eglwys Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Alltyplacca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Dyma un arall o hen ffyddloniaid yr achos yn y lle uchod wedi gadael; ac ni wyddis pwy a leinw ei lle. Yr oedd o gymeriad difrycheulyd.

AWST 3ydd, yn 9 wythnos oed, Margaret Jane, plentyn bychan Albert a Hannah Thomas, Porthyrhyd, Llandyssul. Claddwyd ei gweddillion y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

AWST 6ed, yn 37 oed, Eleanor Jones, anwyl wraig David Jones, Felin Hafodwen, ger Cribyn, ar ol cystudd maith. Gadawodd i alaru ar ei hol briod, tri o blant bychain, pedair chwaer a brawd. Teimlir chwithdod o herwydd ei cholli gan gylch helaeth o gymydogion a chydnabyddiaeth. Cydymdeimlir yn fawr â'r priod ac â'r plant bychain yn eu tristwch a'u colled. Duw'r dyddanwch a Thad yr amddifaid a'u cysuro ac a'u hamddiffyno. Hebryngwyd ei gweddillion gan dyrfa anarferol o luosog y Llun canlynol i fynwent Capelygroes. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan ei hen weinidog, y Parch. J. Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans.

AWST 9fed, yn 47 oed, Elizabeth Thomas, Glyn, Talgareg, Llandyssul. Eiddil a phylog y bu ei hiechyd am flynyddoedd, ac yr oedd ei hamynedd a'i sirioldeb yn aml yn creu syndod. Cystudd byr oedd yr olaf, ond caled iawn, ac mae'n bosibl mai gweithred o drugaredd oedd ei chymeryd i'r wlad lle nad oes poen. Hiraethus, serch hyny yw ei brodyr a'i pherthynasau, ac mae ein cydymdeimlad tuag atynt yn fawr, yn enwedig tuag at ei brawd, Mr. J. R. Thomas, ysgolfeistr Pontshan, yr hwn a fu yn ofalus iawn o honi drwy bob tywydd. Y Mercher canlynol daeth tyrfa fawr i hebrwng ei chorff i fynwent Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y Parch. E. O. Jenkins ac ar lan y bedd gan y Parch. T. C. Benjamin (A.)

AWST 10, o'r ddarfodedigaeth, David Davies, Glyn, ger Llanbedr, yn 28 mlwydd oed. Ni wyddai'r ymadawedig ond ychydig trwy brofiad am werth iechyd a nerth corphorol drwy ei fywyd, ac eto er pob gwaelder corphorol yr oedd yn meddu ar y gallu i fod yn galonog a llawn o gynlluniau bron hyd ei anadl olaf. Gadawodd fam a brawd mewn galar ar ei ol. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

AWST 21ain, yn 18 oed, Esther L. Davies, merch William a Hannah Davies, Rose Cottage, Llandyssul. Yr oedd i'r ferch ieuanc hon aml rinweddau, ond galwyd hi adref yn gynar. Bydd yr adgofion o honi yn anwyl gan lawer, heblaw gan dad a mam, brawd a chwaer y rhai a adawodd yn eu dagrau. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn Pantdefaid a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

MANION AC HANESION.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Fawrth, Mehefin 23ain, ymwelodd y Parch. Morris Morgan, Abertawe (ysgrifenydd Cymdeithas Ddirwestol Deheudir Cymru a Mynwy) a'r Capel hwn a thraddododd araeth dda ar destyn da. Mae'n dda gyda ni feddwl fod cymdeithasau ac unigolion yn gweithio mor galed er dwyn y cwestiwn yma o ddirwest o flaen y lluaws, ond byddai yn well genym pe bai digon o areithwyr dirwestol yn yr ardal fel na fuasai eisieu myn'd i Abertawe i chwilio am un. Yn sicr mae dirwest yn werth son am dani, ac mae'n bryd i ni orphen teimlo'n *shy* i arddel a siarad ein dirwest. Gobeithio bod araeth Mr. Morgan wedi bod ac i fod o les mawr i bawb fu yn ei gwrando.

Nos Wener, Gorph. 3ydd, cawsom y fraint o glywed y Parch. J. Bowen Jones, B.A., Aberhonddu, yn pregethu yn y Capel hwn. Oeddem yn gyfarwydd ag enw Mr. Jones o'r blaen, ac yn gyfarwydd a darllen ambell erthygl o waith ei law, ond dyma y tro cyntaf i ni wel'd ei law a gwrando ar ei lais. Daeth cynulleidfa dda yn nghyd i wrando arno yn son am y ddyledswydd o wneud y goreu i'r corph, y meddwl a'r enaid. Anibynwr yw Mr. Jones, ac feallai fod gweled un felly mewn pwlpud Undodaidd wedi synu rhai. Beth bynag am hyny rwy'n siwr fod llawer wedi mwynhau ei wasanaeth.

PENTRE.—Dydd Sul, Mehefin yr 28ain cynaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol y gynulleidfa uchod. Y pregethwyr oeddynt y Parch. Lewis Williams, Ciliau a'r Parch. D. Jenkin Evans, Cwmbach. Bychan oedd y cynulliad yn y boreu, y capel rywfaint mwy na thri chwarter llawn y prydnawn, ac yn hollol lawn yn yr hwyr. Yr ydym yn deall fod arddull swynol Mr. Williams, a brwdfrydedd tanllyd Mr. Evans wedi gadael argraff ddofn a pharhaol ar y gwyddfodolion. Oherwydd y galwadau trymion ac aml sydd wedi bod ar y ddeadell fechan hon yn ddiweddar, nid oedd y casgliadau gymaint a rhai y llynedd.

Dydd Llun, y 29ain, cynaliwyd y Tê Parti blynyddol yr hwn a drodd allan yn hynod lwyddianus. Disgwylir y bydd i'r elw y flwyddyn hon fod yn sylweddol; oherwydd gwerthwyd mwy o docynau eleni nag erioed o'r blaen. Llonwyd ni wrth weled cyfeillion o Ddyffryn Aberdar a pharthau pellenig y Rhondda wedi dod i ddangos eu cydymdeimlad a'u brawdgarwch.

EGLWYSI UNDODAIDD Y RHONDDA.—Nos Sadwrn, Gorphenaf 11eg, cynaliwyd cyfarfod yn Nhlydach Vale i gyflwyno tysteb i Mr. a Mrs. David Rees, yr hen weinidog a'i briod, ar achlysur ei hymadawiad o'r lle. Bu Mr. Rees yn gweinidogaethu i'r eglwysi uchod am bum mlynedd, ac nis gall neb ddweyd y bydd y dadgysylltiad yn esgor ar y lles lleiaf i'r eglwysi yn eu cyfwng presenol. Y mae wedi bod yn llafurus i wneud yr hyn a allai i hyrwyddo eu buddianau, ac mae yn gysur genym ddweyd eu fod wedi eu gadael mewn gwell cyflwr nag y cafodd hwynt. A defnyddio ei eiriau ei hun, daeth yma yn ffres oddiwrth gyrn yr aradr, ymadrodd ffugyrol, ond yn ei achos ef yn golygu bwrdd y teiliwr. I ddyn cyffredin nid bychan o beth oedd hyny, ond mentro wnaeth, ac er nas gall ymffrostio mewn addysg golegawl, y mae ei dymer addfwyn, hynawsedd ei yspryd, treiddgarwch ei feddwl, ei barabl naturiol, ei weithgarwch diflino, a'i gymeriad difrycheulyd, mewn modd arbenig yn ei gymhwyso at waith cyfrifol y weinidogaeth. Nid oes arno gywilydd o Efengyl Crist yn ol y deongliad Undodaidd o honi, oblegyd y mae wedi anerch ugeiniau o gyfarfodydd yn yr awyr agored, yr hyn sydd wedi ei

ddwyn i sylw miloedd trigolion y Rhondda fel dyn a chanddo neges yn y byd. Y mae fel y cyfryw wedi *blunto* awch a llymder y gwrthwynebiad angerddol deimlid yn erbyn Undodiaeth yn y Rhondda ar gychwyniad ei weinidogaeth. Dywedwn yn ddibetrus nad oes achos i unrhyw eglwys i gywilyddio gwneud Mr. Rees yn weinidog iddi. Penderfynodd chwiorydd yr eglwys uchod i gael *Social Tea* i ddathlu yr achlysur, a buont yn deilwng o honynt eu hunain. Wedi cliro'r bwrdd, traddodwyd anerchiadau pwrpasol yn y rhai y datgenid hiraeth diffuant am ei ymadawiad, a gobaith clyd am ei lwyddiant dyfodol. Y rhoddion oeddent *Silver Tea Pot* i Mrs. Rees, ac ychydig o gyfrolau o weithiau Martineau a Dawson i Mr. Rees. Diolchwyd yn wresog i'r eglwys gan y ddau am y rhoddion. Datganai Mr. Rees ei farn nad oedd yn credu y gallasai dim ddifodi y cyfeillgarwch pur ydoedd wedi ei ffurfio rhyngddo a'r ddeadell fechan yn Nghlydach Vale.

DYWED *Kelt Llundain* fod cryn alwad am wasanaeth Mr. Delta Evans yn mhwlpudau yr eglwysi Undodaidd ar hyd a lled y wlad. Er pan benodwyd ef, dros flwyddyn yn ol, yn Olygydd y *Christian Life*, newyddiadur wythnosol yr enwad, y mae Mr. Evans wedi enill enw fel pregethwr dylanwadol gyda'r Saeson, ac er ei fod yn byw yn Watford, tua deunaw milltir o Lundain, ac yn d'od i'r Brifddinas bob dydd ynglyn a'i waith golygyddol, eto y mae yn pregethu yn rhywle neu gilydd bron bob Sul.

DOWLAIS.—Dydd Llun, Awst y 3ydd, cynhaliodd yr eglwys uchod ei Gwyl Flynyddol o adloniant fel arferol. Cychwynwyd gyda'r *train* boreuol am Talybont-ar-Wysg, wrth waelodion Bannau Brycheiniog, lle yr oedd cyflawnder o ymborth wedi ei ddarparu mewn ystafell eang a chyfleus perthynol i Mr. Evan Morgan Jenkins, Ironmonger, Dowlais. Cafwyd hin ddymunol yn ystod y dydd er rhoddi mantais i ni ymdeithio ac ymbleseru yn nyffryn prydferth a ffrwythlon yr afon Wysg. Wedi treulio y dydd mewn hapusrwydd dychwelwyd gyda'r *train* prydnawnol a chyrhaeddasom Dowlais am 7 o'r gloch, oll yn llawen ac wedi eu llwyr foddloni yn ystod y daith. "Mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd." Byddwch wych, gyfeillion anwyl, nes y cyfarfyddom eto yw dymuniad—GWYNLLIW.

TREBANOS.——Prydnawn Iau a Sadwrn, y 13eg a'r 15fed cyfisol, yn yr Ysgol Fyrddol, cynhaliwyd *Bazaar* ardderchog, a drodd allan yn llwyddiant arbenig—gwell na'n disgwyliadau goreu. Tua diwedd y flwyddyn ddiweddaf y cychwynwyd i wneud paratoadau, a bu'r chwiorydd drwy'r misoedd yn cyfarfod ddwy waith bob wythnos er uno i wnio, &c. Gweithiasant a'u holl egni, ac y mae clod nid bychan yn ddyledus iddynt. Yr oedd yr Ysgoldy wedi ei addurno yn hynod brydferth, a phob *stall* gyda'u llwythi o bethau defnyddiol, yn ymddangos yn ddrudfawr a phrydferth. Mewn gwirionedd yr oedd pawb yn cael eu llanw a syndod wrth weled sut le godidog. Agorwyd y *Bazaar* dydd Iau gan Mrs. J. Aeron Thomas, a dydd Sadwrn gan Mr. C. B. Jenkins, yn absenoldeb ei anwyl briod. Teimlwn yn ddiolchgar i'r rhai hyn am eu caredigrwydd a'u parodrwydd. Chwareuodd y Seindorf leol yn ystod y ddau brydnawn. Mae aelodau'r Seindorf yn barod iawn i wneud yr hyn fedrant bob amser. Derbyniwyd oddiwrth yr arwerthiant yn unig £102. Nid ydym yn cyfrif y tâl am ddod i fewn yn y swm hwn. Hyderwn ar ol talu pobpeth y bydd genym rhyw £110 i'w trosglwyddo i'r Drysorfa Adeiladu. Ysgrifenyddes y *Bazaar* oedd Mrs. T. J. Jenkins, a'r Drysoryddes oedd Mrs. John Roberts, ac y mae y llwyddiant yn nglyn a'r mudiad yn siarad yn uchel am y gwaith da gyflawnwyd ganddynt. Yn wir, mae canmoliaeth a diolchgarwch yn ddyledus i bawb, oblegyd yr oeddynt oll ar eu goreu—yn uno fel un llaw i ddwyn y mudiad i derfyniad hapus.

Carem enwi yr oll fu'n gweithio, ond nis gellir oherwydd prinder gofod. Gobeithio y cawn gyd-weithredu etto fel y bydd i'r eglwys gynyddu a bleguro. Yr ydym am gael *jiwbili*, ac os carai rhyw frawd neu chwaer ein cynorthwyo byddwn ddiolchgar iawn am bob help. Gellir danfon cyfraniadau i Mrs. John Roberts, Top-y-graig, Trebanos, Swansea Valley.

EIN MYFYRWYR.—Y mae yn bleser digymysg genym groniclo hanes llwyddiant ein myfyrwyr yn y gwahanol Golegau o dro i dro. Fel y gwelir isod y maent wedi cael blwyddyn lwyddianus, yr hyn sydd yn ernes fod dyfodol disglaer yn eu haros. Dymunwn eu llongyfarch o galon. Y mae Mr. Watkin Samuel Jones wedi pasio yn llwyddianus yr arholiad cyntaf am ei M.A. yn Mhrifysgol Cymru. Y mae Mr. J. D. Jones, Caerau, Llanwenog, newydd basio y *Responsions* yn Mhrifysgol Rhydychen, ac mewn canlyniad wedi enill Ysgoloriaeth o £80 y flwyddyn gynygir gan Goleg Manchester. Enillodd Mr. J. Islan Jones, B.A. y Russell Martineau Prize yn Ngholeg Manchester, am wybodaeth Feibl-aidd, ac enillodd Mr. J. Park Davies, B.A. wobrwyon arbenig yn ei ddosparth ei hun.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Derbyniwyd a ganlyn yn ychwanegol at yr hyn a gyd-nabyddwyd yn rhifyn Gorphenaf—Capelybryn, £1; y Parch. John Davies, 5s.; Cribyn, 17s.; y Parch. D. Evans, 5s.; Mr. Jenkins, Mynach villa, 2s.; Capelygroes, £1; Miss Davies, Salisbury road, Caerdydd, 5s.; y Parch. J. Williams, Panteg, 2s.6c.; S. Hughes, Llwynbedw, 2s.6c.; J. Bowen, Llwyneinon, 2s.6c.; Llwynrhydowen, £1; Capelybryn, ychwanegol, 2s.; J. J. Cuppy, Abertawe, 5s.; John Burchell, 2s.6c.; Tom Jones, 5s.; W. E. Thomas, 10s.6c.; E. J. Thomas, 10s.6c.; D. Davies, Gellionen, 5s.; Capel Fadfa, £1; Parch. W. J. Phillips, Nottais, 3s.; Nottais, 7s.6c.; Gellionen a Threbanos, £1 1s.; T. Thomas, Cyfreithiwr, Llandyssul, 5s.; Casgliad yn y Cwrdd Blynyddol yn Aberdar, £3 12s. 6c.; y Parch. J. Fisher Jones, Cheltenham, 2s.6c.

PWY YW'R PROPHWYD.—A fedr rhywun o ddarllenwyr *Yr Ymofynydd* ddyweyd pwy ydyw awdwr y llinellau dyddorol a ganlyn? Clywais hwy yn ddiweddar gan fy nhad—Mr. Joseph Evans, Dyserth, ger Rhyl, Gogledd Cymru, yr hwn sydd yn awr dros ei bedwar ugain a phump oed, ac y mae yn dra hoff o'u dwyn ar gof i'r oes bresenol fel prophwydoliaeth a ddysgodd pan yn fachgen. Fel hyn—

Yr ager-longau mawrion
A rwygant donau'r eigion,
A'r ager-gerbyd hyd ein tir
A lunir ar olwynion.
Mae rhai yn d'rogan eto
Odiaethach ffordd i deithio,
Sef awyr-gerbyd hyfryd hynt
Ar edyn gwynt i rodio.

Sibrydodd rhywun yn fy nghlust mai adsain o'r hen "Fam Shipton" ydynt. Boed hyny fel y bo, gwyr pawb erbyn hyn fod y brophwydoliaeth wedi ei chyflawni i'r llythyren.—DEWI HIR-ADDUG.

UNDEB GWEINIDOGION CEREDIGION.—Mae gweinidogion Ceredigion newydd ddwyn i derfyniad eu newidiadau blynyddol. Pwnc ofynir yn fynych mewn cysylltiad a'r pregethau teithiol hyn yw, a ydynt yn ateb eu dyben? O bosibl fod yna amrywiol farnau ar y cwestiwn. Gwir nad ydynt yn peri cymaint cyffro a dyddordeb yn y cylch ag a wnaethent rhyw ddeg neu ragor o flynyddau yn ol. Nis gwn y rheswm paham. Ai'r newydd-deb sydd wedi ei wisgo allan, neu nid yw'r gair mor atdyniadol ag yn y dyddiau fu? O am rywun fel y prophwyd gynt i anadlu awelon y nefoedd ar yr esgyrn sychion fel eu bywheir gan frwdfrydedd o'r pen i'r gwaelod.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.